

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

7/1/16

Presennol: Y Dirprwy Faer Edith Roberts, Dilys Evans, Dorothei Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Islwyn Pritchard Jones, Ivora Jones, Alun Price, John C Williams, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

1. Croesawyd yr aelodau gan y Dirprwy Faer ac estynnodd groeso arbennig i bedwar aelod o Gyngor Ysgol Bro Tegid a Mrs Sara Morris. Cyflwynodd y disgyblion eu hunain ac amlinellwyd y math o weithgareddau y maent yn eu gwneud. Canmolwyd hwy am godi arian at nifer fawr o achosion da. Diolchwyd iddynt am gymryd diddordeb yng ngweithgareddau'r Cyngor a gwahoddwyd sylwadau pellach ganddynt yn y dyfodol.
2. Derbyniwyd ymddiheuriadau Carol Rowlands a'r Maer, Eifion Roberts. Mynegwyd cydymdeimlad y Cyngor gyda'r Maer yn ei brofedigaeth o golli ei fam.
3. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
4. Nid oedd datganiadau buddiant.
5. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 10/12/15.
6. **Materion y Clerc:**
 - i. Cyfeiriwyd at gyngor SLCC ar ddefnydd o finiau halen a chlririo eira.
 - ii. Ni chafwyd ymateb hyd yn hyn i sylwadau'r Cyngor am y Wardeiniaid parcio.
 - iii. Derbyniwyd ymddiheuriad fod y toiledau ar y Grîn wedi eu cau yn gynnar noson ffair Hydref a chytunwyd i atgoffa Swyddogion Cyngor Gwynedd o ddyddiadau'r ffair.
 - iv. Ymatebodd y Cyngorwyr Tref i'r ymgynghoriad ar ffens y Domen.
 - v. Adolygwyd y trefniadau ar gyfer y Siopa Hwyr a'r Nadolig. Cytunwyd i ofyn i Swyddogion Gwynedd a fyddai'n bosib rhoi goleuadau ar fwy o goed, er bod y Cyngorwyr yn ymwybodol o'r angen am ganghennau cryfion i ddal y golau a chyflenwad trydan gerllaw.
 - vi. Adroddwyd y bu cyfarfod ar 7/12/15 gyda'r Grŵp Busnesau am gamerâu cylch cyfyng.
 - vii. Derbyniwyd llun o'r Bala a chwam Tryweryn a dynnwyd o awyren tua 1954. Daeth y llun o swyddfa'r Bwrdd Dŵr yn Hwlfordd trwy law Mr Huw Lewis. Cytunwyd i ofyn i Gwmni Pum Plwy Penllyn cyf i'w arddangos yng Nghanolfan Henblas gan ei fod yn llun mor ddiddorol ac hanesyddol.
7. **Adroddiad y Cyngorydd Sir:** Dywedodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan y bydd gwahoddiad i'r Cyngorwyr weld cynlluniau'r ysgol newydd ar 20/1/16. Adroddodd fod mater ail-wynebu'r Stryd Fawr yn cael ystyriaeth eto. Cytunodd y Cyngor fod angen diolch i bawb sydd wedi gweithio mor dda i atal llifogydd yn yr ardal.
8. **Adroddiad Cynrychiolydd Un Llais Cymru:** Adroddodd Dorothei Evans i'r Pwyllgor Ardal wrando ar gyflwyniad am Gartrefi Cymunedol Gwynedd a chytunodd Swyddog Un Llais Cymru i geisio cael

eglhurhad ar gymhlethdod Rheol 106. Mynegwyd pryder am ddileu'r gwasanaeth biniau halen gan nifer fawr o'r Cynghorau. Trafodwyd Cynllun Prynu'n Lleol a phwysleisiwyd pwysigrwydd fod copi wrth gefn yn cael ei gadw o ddogfennau pob cyngor. Mynegodd Dorothi Evans ei dymuniad i dderbyn cofnodion y Cyfarfod Ardal yng nghynt er mwyn adrodd yn llawn wrth y Cyngor Tref. Cytunodd y Clerc i fynegi hyn wrth y Trefnydd Lleol.

- 9. Materion Cynllunio:** derbyniwyd gwybodaeth fod ymgynghoriad ar Ganllaw Atodol "Asesiad o Sensitifrwydd a Chapasiti y Dirwedd" ar gael ar wefan y Parc, a disgwyllir ymatebion erbyn 12/2/16

10. Materion Cyllid

- i. Rhoddwyd adroddiad ar lafar o'r trafodaethau, a chytunwyd gydag argymhelliad yr is Bwyllgor Cyllid ar gyfer Praesept 2016-17
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- iii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis: Hysbyseb yn *Y Cyfnod* (£30); Llungopïo (£15); cyflog Rhagfyr.
- iv. Atgoffir mudiadau a chymdeithasau sydd yn dymuno gwneud cais i'r Cyngor am nawdd ariannol i ddefnyddio'r ffurflen ar wefan <http://www.cynghoraupenllyncouncils.co.uk> neu i anfon llythyr at y Clerc (ynghyd â mantolen) yn amlinellu'r defnydd o nawdd llynedd ac egluro'r rheswm am gais eleni. Dylid gwneud hyn yn fuan yn Chwefror.

11. Gohebiaeth:

- i. **Llywodraeth Cymru:** derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Edwina Hart bod blaenoriaethau diogelwch a chyflymdra ar gael ar <http://www.traffic-wales.com/Trunkroadsafetyreview>
- ii. **Cyngor Gwynedd:**
 - a. derbyniwyd rhaglen waith Ionawr sef uwchraddio colofnau golau stryd ar y Stryd Fawr ac yn Heol Pensarn.
 - b. Nodwyd derbyn rhestr toriadau sydd o dan ystyriaeth.

12. Materion lleol y Cynghorwyr Tref:

- i. Diflaniad bin baw ci Ro Wen - derbyniwyd eglurhad fod y bin sydd wedi ei leoli yno yn addas i dderbyn sbwriel a baw ci. Mae gosod bin amlbwrpas yn arbed arian gan mai un casgliad sydd angen ei wneud. Cytunodd y Cyngor fod hwn yn ddefnydd da o adnoddau'r Cyngor Sir.
- ii. Cytunwyd fod angen adnewyddu baneri a bod angen eu cadw dros y gaeaf gan fod y gwyntoedd cryfion yn eu difetha.
- iii. Cytunodd y Clerc i ofyn eto am gynlluniau i atal goryrru trwy'r dref ac ar hyd Heol Ffrydan.
- iv. Cytunwyd i drafod yn yr hydref mater tendro am gyflenwi coed Nadolig.
- v. Cytunodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i drafod palmant anwastad Heol Tegid (o siop Ria i Siop y Gornel) gyda Swyddogion Gwynedd.
- vi. Cytunwyd fod angen hyrwyddo fflatiau Blaenddol a Chysgod y Coleg yn lleol ac annog pobl leol o bob oed i ymgeisio amdanynt, yn hytrach na'u bod yn wag neu yn cael eu gosod i ddiethriaid. Dyma'r cysylltiadau ar gyfer gwneud cais am gartref: Ffôn: 01286 685 100 e-bost: opsynautai@gwynedd.gov.uk Lawrlwytho: www.gwynedd.gov.uk Mae Cyngor Tref Y Bala yn cynnig help i lenwi'r ffurflen os dymunir.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 4/2/16